

Ydy'r syniad yma'n Feiblaidd?

*“Onid yw'r un a blannodd glust yn clywed, a'r un a luniodd lygad yn gweld?”
(adn. 9)*

Beth am ddarllen Salm 94:1–23 ac yna myfyrio

Mae'n gwbl bosibl eich bod erbyn hyn yn meddwl: Pa seiliau Beiblaidd sydd dros gredu bod Duw yn awdur storïau? O ble mae'r syniad hwn yn codi yn yr Ysgrythur? Wel, wn i ddim am yr un testun sy'n dweud yn hollol bendant bod Duw yn awdur storïau, ond mae nifer o adnodau sy'n awgrymu bod Duw ynglŷn â'r gwaith o sgwennu. Ceir un ohonyn nhw yn Effesiaid 2:10: “Oherwydd ei waith ef ydym.” Gellid cyfieithu'r adnod hon fel hyn hefyd: “Cerddi ydym ganddo ef.” Y gair Groeg a ddefnyddir yma yw *poiéma*, lle ceir y gair Saesneg “poem” ohono. Ceir un arall yn 2 Corinthiaid 3:3: “Yr ydych yn dangos yn eglur mai llythyr Crist ydych.” Os cyfunwn y ddau destun hyn, yna fe welwn fod y Cristion i fod yn farddoniaeth Duw a rhyddiaith Duw. Mae'n bywydau i fod i ymgorffori dirgelwch dwyfol – barddoniaeth – ac ar yr un pryd i fynegi neges ddwyfol – rhyddiaith.

Fe gofnodir tri achlysur yn yr Ysgrythur pan fu i Dduw ysgrifennu. Y cyntaf oedd ar fynydd Sinai pan ysgrifennodd y Deg Gorchymyn ar ddwy lechen (Deut.4:13), yr ail yng ngwledd Belsassar (Daniel 5:5), a'r trydydd, pan fu iddo, ym mherson ei Fab, ysgrifennu yn y tywod (Ioan 8:6). Ond pan ystyriaf y testun sydd ar ben y ddalen hon yr wyf i'n fwyaf argyhoeddedig fod Duw yn awdur storïau.

Pryd bynnag y darllenaf stori sydd yn cydio ynof gyda'i chynllun dyfeisgar ac yn fy nghadw ar ymyl fy sedd wrth imi ddilyn y gwahanol droadau a newidiadau, yna fe fyddaf yn dweud wrthyf fy hunan: Os yw Duw'n gallu donio rhai pobl gyda'r fath ddychymyg, yna pa nerth o ddychymyg y mae'n rhaid fod ganddo ef ei hun. Onid yw'r Un sy'n rhoi syniadau dychmygus yng nghalonau dynion a merched yr un fath ei hun? Os cawn ni ein cyffroi gan ryw nofel arbennig, yna beth rydym ni'n ei ddisgwyl y down ni o hyd iddo mewn bywyd go iawn pan nad yw'r awdur yn neb llai na'r Duw Hollalluog?

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Rhuf. 15:4;

Dat. 21:5–7

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd pwrpas pob dim a ysgrifennwyd yn y gorffennol?
2. Beth sy'n cael ei addo mewn geiriau sydd yn ffyddlon a gwir?

Gweddi Dad graslon, helpa fi i gael fy nghyffroi wrth weld fy mywyd i fy hunan yn gymaint mwy na dim ond stori i'w hadrodd, ond fel stori sydd wedi ei sriptio gan awdur storïau mwyaf dychmygus a dyfeisgar y byd yn grwn. Yn enw Iesu. Amen.